At Gadeirydd ac aelodau Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd:

Delyth Jewell AS, Delyth.Jewell@senedd.cymru

Hefin David AS, Hefin.David@senedd.cymru

Alun Davies AS, Alun.Davies@senedd.cymru

Tom Giffard AS, Tom.Giffard@senedd.cymru

Llyr Gruffydd AS, Llyr.Gruffydd@senedd.cymru

Carolyn Thomas AS, Carolyn.Thomas@senedd.cymru

CC Dawn Bowden AS,
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

CBHC RCAHMW

**Comiswn Brenhinol Henebion Cymru**
**Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales**
Ffordd Penglais | Penglais Road
Aberystwyth SY23 3BU
+44 (0)1970 621 201

christopher.catling@cbhc.gov.uk
christopher.catling@rcahmw.gov.uk

Dyddiad: 10/01/2024

Annwyl Delyth,

**Dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant y Senedd i ofyn a wnewch chi ystyried gofyn i Lywodraeth Cymru feddwl eto am grant sylfaenol y Comisiwn Brenhinol pan fyddwch yn cwrdd i graffu ar gyllideb 2024–25 ar 17 Ionawr 2024.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd ein cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael ei thorri 22 y cant i £1.413 miliwn. Mae Cadw yn wynebu toriad sy'n cyfateb i'r un ganran ac mae cyllidebau tri sefydliad diwylliannol arall yng Nghymru yn cael eu torri 10 y cant – sef y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n ymddangos bod Diwylliant (ynghyd â Materion Gwledig, sy'n wynebu toriad o 10.47 y cant) wedi'u targedu ar gyfer toriadau sy'n arbennig o ddwfn o'u cymharu â'r gostyngiadau llai o lawer – mae pob un ohonynt yn llai na 5 y cant – y mae'r portffolios gweinidogol eraill yn eu hwynebu.

Byddai gostyngiad tecach o 10% i'n cyllideb yn dal i achosi trafferthion i ni, ond byddai'n prynu'r amser angenrheidiol i osgoi gwneud penderfyniadau brysiog a byddai'n ein galluogi i weithio gyda Cadw ac eraill i gynllunio ateb strategol a threfnus ar gyfer dyfodol y sector treftadaeth. Os na allwn sicrhau setliad grant sy'n well, bydd angen i ni gymryd camau ar unwaith i leihau nifer ein staff o 28 i 20 er mwyn osgoi sefyllfa lle gallai ein harian ddod i ben ychydig cyn Nadolig 2024.

Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi cael llawer o glod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethom sicrhau grant gwerth 6 miliwn ewro i ariannu prosiect CHERISH, sef ein prosiect ym maes y newid yn yr hinsawdd, ac rydym yn arwain cyfraniad y sector i gynllun addasu'r Llywodraeth. Gwnaethom lunio'r ffeil o dystiolaeth a arweiniodd at ddyfarnu statws Treftadaeth y Byd i ddiwydiant llechi Cymru. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn prosiect archaeoleg gymunedol, sydd wedi'i ganmol yn fawr, i ymchwilio i hanes Pendinas, sef un o fryngaerau mwyaf trawiadol Cymru. Rydym yn cyfrannu i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol drwy gofnodi profiadau go iawn yr Asiaid Ugandaidd a ddaeth o hyd i noddfa yng Nghymru ar ôl cael eu gyrru allan gan Idi Amin yn 1972. Gallai'r prosiect hwn, sydd wedi cael llawer o ganmoliaeth, fod yr un cyntaf o blith llawer sy'n clodfori cyfraniad cymunedau alltud i fywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y genedl.

Rydym wedi annog pobl ifanc i ymwneud â diwylliant Cymru drwy ein prosiect Treftadaeth Nas Cerir, ac rydym yn helpu i ddiogelu'r iaith Gymraeg drwy ein rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i enwi strydoedd newydd, ystadau tai, ystadau diwydiannol ac ystadau siopa. Rydym yn gweithio gyda'r Sefydliad Treftadaeth Iddewig i droi'r synagog ym Merthyr Tudful yn Ganolfan Dreftadaeth sy'n cyflwyno hanes cymuned Iddewig Cymru – hanes sy'n ganrifoedd oed. Mae nifer yr addoldai yng Nghymru sy'n cau wedi cynyddu'n gyflym, a ni yw'r unig gorff sy'n cofnodi tu mewn yr addoldai ac sy'n dod o hyd i gartref ar gyfer eu harchifau cyn iddynt gael eu hailddatblygu. Mae'r data yr ydym yn ei ddarparu i gynllunwyr a swyddogion cadwraeth am yr amgylchedd hanesyddol yn hanfodol ar gyfer eu hymateb i'r bygythiad y mae plannu coed ar raddfa fawr yn ei achosi i archaeoleg ucheldiroedd a'r bygythiad y mae tyrbinau gwynt ac echdynnu agregau'n ei achosi i archaeoleg arforol.

Roeddem wedi edrych ymlaen at chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o weithredu'r Strategaeth Ddiwylliant uchelgeisiol a llawn gweledigaeth, y disgwylid iddi gael ei lansio eleni, ac roeddem wrthi'n integreiddio Casgliad y Werin Cymru yn y Comisiwn Brenhinol gan gyfuno ein harbenigedd ni ym maes cofnodi adeiladau ac archaeoleg â'u sgiliau nhw ym maes cofnodi hanes llafar, 'profiadau go iawn', a threftadaeth y mae'n anodd ei mesur.

Mae'r holl waith hwn dan fygythiad yn awr. Gyda thîm tipyn yn llai o faint, bydd ein capasiti i barhau â llawer o elfennau ein gwaith yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol a bydd hynny'n gwneud niwed hirdymor i ganolfan ragoriaeth sy'n uchel ei pharch yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Yn bersonol, rwyf wedi gweithio'n galed yn ystod y naw mlynedd diwethaf i adfer morâl yn y Comisiwn a rhoi ymdeimlad clir o bwrpas i'm cydweithwyr ar ôl y penderfyniad i atal yn 2014 y bwriad i'n huno â Cadw. Mae'r is-adran sy'n ein noddi yn Llywodraeth Cymru wedi cydnabod droeon ein bod yn sicrhau gwerth am arian, ac mae ein cyflawniadau rhagorol yn amlwg i bawb yn ein hadroddiadau blynyddol. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn gwneud cyfraniad pwysig i'r ymdeimlad cynyddol o genedligrwydd Cymreig ac o arbenigrwydd Cymru, a dylai Llywodraeth Cymru ymfalchïo bod ei buddsoddiad wedi cyflawni cymaint (afraid dweud bod yr arian a gaiff cyrff diwylliannol yn aruthrol o fach ac na fyddai'n cadw'r GIG yng Nghymru i fynd am fwy nag ychydig funudau).

Hoffwn derfynu drwy gymharu’r toriadau y gofynnir i ni eu gwneud yng Nghymru â’r gwariant cyhoeddus ychwanegol sydd ar y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant yn yr Alban (bwriedir cynyddu gwariant yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd y flwyddyn nesaf). Pan gyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog yr Alban £15.8 miliwn yn ychwanegol i’w wario ar y celfyddydau a diwylliant yn yr Alban ar 19 Rhagfyr 2023, addawodd mai hwn oedd y cam cyntaf tuag at ddyblu gwariant i o leiaf £100 miliwn erbyn 2028–29. Dywedodd fod pŵer ein diwylliant i drawsnewid pethau’n enfawr, nid yn unig o safbwynt galluogi unigolion a sefydliadau i wireddu eu potensial ond hefyd o safbwynt denu pobl o bob cwr o’r byd sydd am ymweld er mwyn ei brofi drostynt eu hunain.

Yr eiddoch yn gywir,



Christopher Catling
Ysgrifennydd a Phrif Weithredwr